Cwrs Preswyl Penwythnos ar y Grefft o Osod a chyfeilio Cerdd Dant

Nos Wener, Medi 1af – 3ydd, 2017

Gwesty'r Metropole, LLANDRINDOD, Powys, LD1 5DY

Cost y cwrs (gan gynnwys pob pryd bwyd o ginio nos Wener hyd ginio ddydd Sul) : £160 (£80 i fyfyrwyr)

Cynhelir y cwrs uchod i unrhyw un sy'n dymuno hyfforddiant yn y grefft o osod neu gyfeilio cerdd dant. Bydd croeso i'r rhai sydd wedi dilyn y cwrs o'r blaen. Gellir mynychu rhan ohono, os y dymunir, am bris gostyngol.

Rhennir y cwrs yn ddosbarthiadau fel a ganlyn:

(a) Gosod - Dechreuwyr (efo cefndir cerddorol)
(b) Gosod - Peth profiad, ond angen mwy o wybodaeth ac ymarfer
(c) Cyfeilio – Dechreuwyr a Profiadol a'u rhannu yn ôl y gofyn

Cylchwch pa ddosbarth yr hoffech ymuno ag ef yn y bonyn isod. Bydd cyfle i'r myfyrwyr symud o un grŵp i'r llall os y dymunant. Nodwch ar gefn y ffurflen yr hyn yr hoffech ei osod neu ganolbwyntio arno, os oes gennych unrhyw flaenoriaeth (megis darnau'r Ŵyl Cerdd Dant ac Eisteddfod yr Urdd neu waith cwrs TGAU neu Lefel A).

Dylid dod ag **allweddell**, **clustffonau**, **papur *manuscript***, **siswrn**, **glud** a ***sellotape*** gyda chi ynghyd â **chyfrifiadur** ayyb os dymunir, ac mae croeso i chi ddod ag unrhyw offer recordio hefyd.

Am fwy o fanylion am y cwrs neu am drefniadau teithio, cysylltwch â Delyth Vaughan Rowlands, Vanner, Llanelltyd, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2HE 01341 422 854 / 07765 432 431 neu cerdd.dant.cymru@gmail.com

--------✂----------✂----------✂----------✂----------✂----------✂----------✂----------

Enw: ..... Gosod A / Gosod B / Cyfeilio

Cyfeiriad: .....

..... Rhif ffôn:.....

Cyfeiriad e-bost: .....

Nodwch unrhyw anghenion dietegol : .....

A ydych yn barod i rannu ystafell wely gyda un o'r mynychwyr eraill? .....

Arwyddwyd: ..... Dyddiad: .....

Dychweler y bonyn erbyn Awst 11eg, 2017 i: Delyth Vaughan Rowlands, Vanner, Llanelltyd, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2HE. **Rhaid amgáu ernes o £30 gyda phob cais.**